

Fforwm Gweithwyr Chwarae

3 - 4 Gorffennaf 2024

Y Glôb Helyg, Rhaeadr, Powys



Mae'r Fforwm Gweithwyr Chwarae yn ddigwyddiad hyfforddiant gwaith chwarae preswyl, deuddydd o hyd dan gynfas sy'n rhoi cyfle i weithwyr chwarae ddysgu oddi wrth ei gilydd a hyfforddwyr gwaith chwarae profiadol.

Pwy ddylai fynychu?

Anelir y digwyddiad at weithwyr chwarae, gweithwyr datblygu chwarae, rheolwyr gwaith chwarae, ymarferwyr ysgolion fforest, gweithwyr gofal plant a phawb sydd am gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth am waith chwarae, yn enwedig y tu allan.

'Mae'n dod ag arfer yn fyw i staff newydd ac mae'n cynnig amser i mi fyfyrto. Rwyf wastad yn dod oddi yno gyda digon o syniadau newydd ac egni gwaith chwarae o'r newydd cyn yr haf!'

Un o gyfranogwyr 2023

Prisiau cyfranogwyr

Eleni rydym wedi sicrhau cyllid i ddarparu pris gostyngol arbennig ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Mae croeso hefyd i weithwyr chwarae o'r tu allan i Gymru.

Ffi cyfranogwyr o Gymru – £55

Ffi llawn i gyfranogwyr eraill – £110

Disgwylir i'r cyfranogwyr wersylla a bydd angen iddynt ddod â'u hoffer gwersylla eu hunain.

Darperir diodydd poeth, ciniawau, brecwast a swper.

I archebu eich lle ewch
at: www.chwarae.cymru/
digwyddiadau